


# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

## DYFED POWYS POLICE AND CRIME PANEL



### ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 2018-2019



# cynnwys

rhagair gan y cadeirydd	<b>1</b>
newidiadau o ran aelodau'r panel	<b>1</b>
ein swyddogaeth	<b>2</b>
adolygiad o'r flwyddyn	<b>3</b>
ein hamcanion ar gyfer 2019-2020	<b>7</b>
casgliad	<b>9</b>
atodiad 1	<b>10</b>

# rhagair gan y cadeirydd

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno ail Adroddiad Blynyddol Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.

Mae 2018-2019 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Panel. Mae'r galwadau cynyddol ar ein heddlu, ynghyd â thoriadau mewn cyllid canolog yn golygu bod penderfyniadau priodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn bwysicach nag erioed. Felly, mae fy nghydweithwyr a minnau yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yn atebol am berfformiad ei swyddogaethau statudol a hefyd i'w gynorthwyo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd.

Am y tro cyntaf mae'r Panel wedi edrych nid yn unig ar blismona yn Nyfed-Powys, ond hefyd ar gylch gorchwyl ehangach y Comisiynydd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir megis cymorth i ddioddefwyr.



Y Cyng. Alun Lloyd-Jones  
(Cadeirydd y Panel)

# newidiadau o ran aelodau'r panel

Bu un newid i aelodaeth y Panel yn ystod y flwyddyn, pan gymerwyd lle'r Cyngorydd Eryl Morgan o Sir Gaerfyrddin gan un o'i gyd-gyngorwyr ar Gyngor Sir Gaerfyrddin, sef y Cyngorydd John Prosser.

Ar ran fy nghyd-aelodau o'r Panel, hoffwn ddiolch i'r Cyngorydd Morgan am ei gyfraniad gwerthfawr i waith y panel ers iddo gael ei benodi am y tro cyntaf yn 2017.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd llawer o sylwadau gan y cyhoedd a'r wasg ynghylch cyfansoddiad cyffredinol y Panel, yn enwedig ynghylch nad yw menywod, pobl iau a phobl dduon a lleiafrifoedd wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Yn y pen draw fodd bynnag, nid oes gan y Panel ei hun unrhyw reolaeth dros bwy a enwebir gan

y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu i fod yn aelodau o'r Panel. Wedi dweud hynny, mae gan y Panel rôl o ran penderfynu pwy a benodir fel aelodau annibynnol/cyfetholedig.

Yn ystod yr ymarfer recriwtio cyhoeddus diwethaf yn 2016, cawsom ddau gais gan fenywod, a phenodwyd un ohonynt. Bydd cyfnod swydd y ddau aelod annibynnol/cyfetholedig o'r Panel yn dod i ben ym mis Hydref 2020. O ganlyniad, yn ystod yr ymarfer recriwtio nesaf, bydd y Panel yn ystyried cynyddu nifer yr aelodau annibynnol/cyfetholedig i dri mewn ymdrech i wella amrywiaeth ei aelodaeth.

**Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Aelodau'r Panel yn Atodiad 1.**

# ein swyddogaeth

## Swyddogaethau Panel yr Heddlu a Throseddu yw:

1. Adolygu cynllun heddlu a throseddu'r Comisiynydd.
2. Adolygu cyllideb ddrafft flynyddol y Comisiynydd, a'r pŵer i roi fetu ar lefel y praesept.
3. Ymdrin â chwynion penodol ynghylch y Comisiynydd neu ei ddirprwy
4. Craffu ar benderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd
5. Adolygu penodiad neu ddiswyddiad y Prif Gwnstabl a phenodiad rhai o staff uwch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, sef unrhyw Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a Phennaeth Staff y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol.
6. Cynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol
7. Rhoi adroddiadau neu argymhellion i'r Comisiynydd
8. Adolygu ymddygiad y Comisiynydd

## Dyma swyddogaethau statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu:

1. Pennu blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun yr Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ynghylch materion plismona;
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y Llysoedd;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi pobl sy'n agored i niwed;
7. Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os bydd angen;
8. Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ymwneud â'r Prif Gwnstabl;
9. Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol; a
10. Pennu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept

**Nid oes gan y Panel, na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, unrhyw rôl o reoli gwaith plismona gweithredol Heddlu Dyfed-Powys. Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw Plismona Gweithredol.**

# adolygiad o'r flwyddyn

Cynhaliodd y Panel pump cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Panel [www.dppoliceandcrimepanel.wales](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales) drwy glicio ar y tab 'cyfarfodydd', y botwm 'dewiswch' ac yna dewis blwyddyn y cyfarfod rydych am chwilio amdano.

## crynodeb o'r cyfarfodydd

### 18fed Mai 2018

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar adroddiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ynghylch effeithiolrwydd Heddlu Dyfed-Powys, plismona digwyddiadau traffig ffyrdd a throsteddau gwledig. Mae'r ddolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

[www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/18th-may/](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/18th-may/)

### 27ain Gorffennaf 2018

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar adroddiad blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

[www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/july-27-2018/](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/july-27-2018/)

### 16eg Tachwedd 2018

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol cyllideb y Comisiynydd a'r modd y mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

[www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/16th-november/](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2018/16th-november/)

### 25ain Ionawr 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar bennu praesept yr heddlu am 2019-2020 a throsteddau gwledig. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

[www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2019/january-25-2019/](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2019/january-25-2019/)

### 15fed Chwefror 2019

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar blismona ac iechyd meddwl, trosteddau gwledig ac adolygu cynllun yr Heddlu a Throsteddu. Mae dolen i gofnodion ac agenda'r cyfarfod hwn isod.

[www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2019/february-15-2019/](http://www.dppoliceandcrimepanel.wales/home/meetings/2019/february-15-2019/)

## cwynion yn erbyn comisiynydd yr heddlu a throsteddu

Rhaid i Banel yr Heddlu a Throsteddu gofnodi unrhyw gŵyn yn erbyn y Comisiynydd sy'n dod i law. Fodd bynnag, dim ond pwerau cyfyngedig iawn sydd gan y Panel i ddelio â'r cwynion hyn ac ni all 'ymchwilio' i unrhyw gŵyn a wnaed.

Mae'n ofynnol i'r Panel gyfeirio unrhyw gŵyn ddifrifol (h.y. cwyn am gamymddwyn troeddol) i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ac nid oes ganddo'r pŵer i orfodi'r Comisiynydd i gymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â chwyn.

Yn ystod y flwyddyn, cofnododd y Panel 2 gŵyn gan y cyhoedd yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu.

O ran un o'r cwynion hyn, cwblhawyd y broses yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Cafodd yr ail gŵyn ei throsglwyddo i 2019-2020.

## blaenoriaethau'r panel ar gyfer 2018-2019

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-2018, nododd y Panel 4 blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol, yr oedd pob un ohonynt yn ymwneud â swyddogaeth statudol y Panel.

### Nodir y blaenoriaethau a'r canlyniadau a gafwyd isod:

Blaenoriaeth 1	Beth wnaethom ni?	Ein Hamcan	Y Canlyniad
<b>Craffu ar braesept arfaethedig yr heddlu</b>	<p>Adolygu cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 2017-2018.</p> <p>Holi'r Comisiynydd yn ffurfiol am y cyfrifon hynny.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Cael gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd</p> <p>Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig a gwneud argymhelliad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.</p>	<p>Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys.</p>	<p>Cynigiodd y Comisiynydd gynnydd sylweddol yn y praesept i fynd i'r afael â thoriadau yng nghyllid y Swyddfa Gartref a mwy o alwadau ariannol ar ei gyllideb.</p> <p>Nododd y Panel nad oedd Heddlu Dyfed-Powys wedi gallu gweithredu o fewn y gyllideb a ddyrannwyd ar ei gyfer yn ystod 2017-2018 ond bod hyn yn bennaf oherwydd digwyddiadau 'unwaith yn unig' annisgwyl a oedd y tu hwnt i reolaeth y Comisiynydd.</p> <p>Nododd y Panel hefyd fod perfformiad Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei raddio'n dda ar y cyfan, bod gwasanaethau nad oeddent yn rhai heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd yn perfformio'n dda ar y cyfan, a bod cost y gwasanaeth i dalwyr y dreth gyngor am y gwasanaeth a gawsant yn is na mewn rhannau eraill o Gymru.</p> <p>Felly, argymhellodd y Panel y dylai'r Comisiynydd fabwysiadu ei braesept arfaethedig yn ffurfiol.</p> <p><b>Derbyniodd y Comisiynydd yr argymhelliad hwnnw.</b></p>

Blaenoriaeth 2	Beth wnaethom ni?	Amcan	Canlyniad
<p><b>Craffu ar sut y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol</b></p>	<p>Cyfarfodydd a arsylwyd gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.</p> <p>Adolygu a chraffu ar Agendâu ac Adroddiadau sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.</p> <p>Gofyn cwestiynau i'r Comisiynydd am sut y mae'n sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol.</p>	<p>Sicrhau bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol mewn modd trylwyr a chadarn er mwyn cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'r penderfyniadau gweithredol o ran plismona y mae'r Prif Gwnstabl yn eu gwneud.</p>	<p>Roedd y Panel yn fodlon bod yna dystiolaeth amlwg bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn herio'r Prif Gwnstabl mewn modd pendant lle bo'n briodol i wneud hynny.</p> <p>Fodd bynnag, er i'r Panel dderbyn bod y Comisiynydd wedi cyflawni'r swyddogaeth hon mewn modd agored a thryloyw, argymhellodd y dylai'r Comisiynydd wella hyn ymhellach drwy fabwysiadu'n gyhoeddus feini prawf i bennu pryd y byddai'r cyhoedd yn cael eu heithrio o gyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu.</p> <p><b>Cytunodd y Comisiynydd i ystyried gweithredu'r argymhelliad hwnnw.</b></p>

Blaenoriaeth 3	Beth wnaethom ni?	Amcan	Canlyniad
<p><b>Craffu ar effaith y Cynllun Heddlu a Throseddu</b></p>	<p>Derbyn adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throseddu</p> <p>Derbyn a nodi unrhyw adroddiadau perthnasol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi/rheoleiddwyr eraill a gofyn cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu amdanynt.</p> <p>Gofynnwyd am farn y 4 awdurdod unedol yn ardal yr heddlu.</p>	<p>Sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n parhau i fod yn addas i'r diben a bod yr amcanion penodol yn cael eu cyflawni drwy roi'r blaenoriaethau hyn ar waith.</p>	<p>Roedd tystiolaeth glir fod Blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu yn parhau i gael eu cefnogi gan brif Randdeiliaid a'r cyhoedd.</p> <p>Roedd yna dystiolaeth amlwg bod perfformiad gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i gefnogi'r blaenoriaethau hynny</p> <p>Roedd yna dystiolaeth amlwg bod y strategaethau comisiynu a ddefnyddir gan y Comisiynydd yn parhau i gefnogi'r blaenoriaethau hynny</p> <p><b>Yng ngoleuni'r uchod ni wnaed unrhyw argymhellion i'r Comisiynydd.</b></p>

Blaenoriaeth 4	Beth wnaethom ni?	Amcan	Canlyniad
<p><b>Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau Panel yr Heddlu a Throsedd</b></p>	<p>Roeddem wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig er mwyn rhoi gwybod iddynt am ein gwaith a cheisio eu barn am Blismona a Throsedd yn Nyfed-Powys.</p>	<p>Sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud a pham.</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn; ymatebodd 490 o bobl i'n hymgyngoriad cyhoeddus</p> <p>Cafodd gwe-ddarllodiadau o'n cyfarfodydd eu gwyllo 226 gwaith</p> <p>Ymwelwyd â'n gwefan 1468 gwaith</p> <p>Cyflwynwyd 8 cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd i'w hystyried</p> <p><b>Yng ngoleuni'r ymgysylltu hwn â'r cyhoedd, yn ystod 2019-2020 bydd y Panel yn canolbwyntio ar faterion a nodwyd gan y cyhoedd fel eu blaenoriaethau.</b></p>



# ein hamcanion ar gyfer 2019-2020

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2018-2019, mae'r Panel wedi penderfynu, yn ogystal â pharhau â'r blaenoriaethau presennol o ran pennu praesept yr heddlu a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Panel a'r ymgysylltu sy'n digwydd â'r Panel, y byddai hefyd yn blaenoriaethu archwiliad o'r modd y mae'r Comisiynydd yn ceisio mynd i'r afael â materion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

## Felly ein blaenoriaethau ar gyfer 2019-2020 fydd:

Blaenoriaeth 1	Amcan	Beth fyddwn yn ei wneud	Canlyniad Bwriadedig
<p><b>Craffu ar Braesept yr Heddlu</b></p> <p>(Mae'r Panel wedi cytuno bod y Cyng. Keith Evans yn arwain y mater hwn)</p>	<p>Sicrhau bod arian Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn cael ei reoli'n briodol a bod Praesept yr Heddlu'n rhoi gwerth am arian i drigolion Dyfed-Powys</p>	<p>Adolygu cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 2018-2019.</p> <p>Holi'r Comisiynydd am y cyfrifon hyn yn gyhoeddus.</p> <p>Cael sesiwn briffio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'i Brif Swyddog Ariannol am sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys a'r galw sydd arno.</p> <p>Derbyn gwybodaeth am y gwasanaethau nad ydynt yn rhai'r heddlu a gaffaelir gan y Comisiynydd</p> <p>Cynnal gwrandawriad i ystyried y praesept arfaethedig.</p>	<p>Bod lefel y praesept a osodir ar gyfer 2020-2021 yn briodol o ystyried yr holl amgylchiadau.</p>

Blaenoriaeth 2	Amcan	Beth fyddwn yn ei wneud	Canlyniad Bwriadedig
<p><b>Ymddygiad Gwrthgymdeithasol</b></p> <p>(Mae'r Panel wedi cytuno bod y Cyng. William Powell yn arwain y mater hwn)</p>	<p>Cael dealltwriaeth o lefel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Nyfed-Powys a'r effaith mae'n ei chael ar fywydau pobl.</p> <p>Bodloni ein hunain bod Cynllun yr Heddlu a Throseddau yn rhoi pwys priodol i'r mater ac yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ymdrin ag ef yn effeithiol.</p> <p>Nodi a oes angen unrhyw newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwneud argymhellion priodol i'r Comisiynydd.</p>	<p>Gofyn i'r Comisiynydd ddarparu gwybodaeth benodol i'r Panel ynghylch y mater hwn.</p> <p>Gwahodd rhanddeiliaid allweddol i roi eu barn i'r Panel.</p> <p>Gofyn am farn y cyhoedd.</p> <p>Chwilio am enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill.</p>	<p>Bod y dull y mae'r Comisiynydd yn ei fabwysiadu yn ymdrin yn effeithiol â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal yr heddlu a defnydd effeithlon o'i adnoddau.</p>

Blaenoriaeth 3	Amcan	Beth fyddwn yn ei wneud	Canlyniad Bwriadedig
<p><b>Ymgysylltu â'r cyhoedd</b></p> <p>(Mae'r Panel wedi cytuno bod y Cyng. Alun Lloyd-Jones yn arwain y mater hwn).</p>	<p>Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Panel, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r gwaith hwnnw.</p>	<p>Hyrwyddo gwaith y Panel drwy we-ddarlledu a defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol</p> <p>Cymryd camau i ymgysylltu â'r elfennau hynny o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno ymgysylltu ar-lein.</p> <p>Ymgysylltu'n benodol â grwpiau lleiafrifol.</p>	<p>Bod y cyhoedd yn fwy hyddysg am waith y Panel ac wedi ymgysylltu â'r Panel i helpu i ddwyn y Comisiynydd i gyfrif a'i gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau.</p>

Yn ogystal â'r 3 blaenoriaeth hyn, mae'r Panel wedi nodi 5 mater pellach, a flaenoriaethwyd gan y cyhoedd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd yn 2018-2019, y mae'n dymuno canolbwyntio arnynt. Bydd pob mater yn thema ar gyfer un o gyfarfodydd y Panel yn ystod y flwyddyn a bydd aelod o'r panel yn cael ei enwebu i arwain arno.

**Dyma'r materion hyn a'r aelodau arweiniol perthnasol o'r Panel:**

Mater	Yr Aelod Arweiniol
Atal Troseddau	Y Cyng. Rob Summons
Iechyd Meddwl	Mrs Helen Thomas
Trais Domestig a Thrais Rhywiol	Y Cyng. Stephen Joseph
Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt	Y Cyng. Les George
Twyll a Seiberdroseddau	Yr Athro Ian Roffe

**Amcan y Panel wrth ystyried y materion hyn yw bodloni ei hun fod gweithrediad Cynllun yr Heddlu a Throseddau mewn perthynas â phob mater yn effeithiol ac yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cyffredinol a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddau.**

# casgliad

Fel y dywedais wrth gloi adroddiad blynyddol cyntaf y Panel, mae plismona a throreddd ac anhrefn yn bwysig i bawb. Rydym yn ffodus bod gwasanaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throreddu Dyfed-Powys ar y cyfan yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion ein cymunedau.

Fodd bynnag, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae ein cymunedau'n wynebu bygythiadau sy'n newid drwy'r amser ac sy'n fwyfwy soffistigedig ac sy'n codi'r cwestiwn pa mor effeithlon yw'r dulliau plismona cymunedol traddodiadol y mae cynifer ohonom yn eu gwerthfawrogi cymaint.

Rwy'n credu'n gryf y gall technoleg fodern fel teledu cylch cyfyng digidol a dyfeisiau symudol ar gyfer swyddogion rheng flaen chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod ein cymunedau yn cael eu diogelu.

Mae cyflwyno systemau teledu cylch cyfyng digidol modern yn sawl un o'n trefi yn un enghraifft o ble gall technoleg o'r fath helpu nid yn unig i blismona ein cymunedau lleol ond hefyd i ymladd yn erbyn bygythiad sylweddol troreddau difrifol a throreddau cyfundrefnol.

Yr her felly yw sicrhau bod yr holl wasanaethau y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throreddu yn eu darparu, ac nid yn unig y rhai a ddarperir gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys, mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae fy nghydweithwyr a minnau wedi ymrwymo'n llawn o hyd i wneud ein rhan i sicrhau bod trigolion Dyfed-Powys yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu.

Alun Lloyd-Jones  
(Cadeirydd)

# atodiad 1

## Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:

**Y Cyng. JOHN PROSSER**

64 Springfields,  
Llanelli, Sir Gaerfyrddin  
SA15 2DD  
01554 403192



SIR GAERFYRDDIN

JGProsser@sirgar.gov.uk

**Cyng. KEN HOWELL**

'Penlan Fawr', Penyboyr,  
Felindre, Llandysul  
SA44 5JF

01559 370555



SIR GAERFYRDDIN

KenHowell@sirgar.gov.uk

**Cyng. JIM JONES**

'Tir Gof', 9 Heol Hen,  
Pump-hewl, Llanelli SA15  
5HJ

01269 860138



SIR GAERFYRDDIN

TJJones@sirgar.gov.uk

**Cyng. ALUN LLOYD JONES**

Murmur yr Ystwyth, 14  
Maes Isfryn, Llanfarian,  
Aberystwyth, Ceredigion  
SY23 4UG

01970 623661



CEREDIGION

alun.lloydjones@ceredigion.gov.uk

**Cyng. KEITH EVANS**

'Deganwy', Sunny Hill,  
Llandysul SA44 4DT

01559 362258



CEREDIGION

keith.evans@ceredigion.gov.uk

**Cyng. LLOYD EDWARDS**

13 Maes Seilo,  
Penrhyncoch, Ceredigion  
SY23 3FL

07375498571



CEREDIGION

lloyd.edwards@ceredigion.gov.uk

**Cyng. DAVID EVANS**

Hafan Gymreig, Bryntirion  
Lane, Rhayader, Powys  
LD6 5LT

01597 810298



POWYS

cllr.david.evans@powys.gov.uk

**Cyng. LES GEORGE**

'The Mill', Pontdolgoch,  
Caersws, Powys SY17 5JE

01686 688231



POWYS

cllr.les.george@powys.gov.uk

**Aelodau Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys (parhad):**

**Cyng. WILLIAM POWELL**

Middle Genffordd,  
Penbont Road, Talgarth,  
Brecon LD3 0EH

07703 112113



POWYS

[cllr.william.powell@powys.gov.uk](mailto:cllr.william.powell@powys.gov.uk)

**Cyng. MICHAEL JAMES**

'Bronllwyn', 7 Grove  
Terrace, Llandudoch  
SA43 3ER

01239 614020



SIR BENFRO

[Cllr.mike.james@sirbenfro.gov.uk](mailto:Cllr.mike.james@sirbenfro.gov.uk)

**Cyng. ROBERT SUMMONS**

19 Stryd y Gorllewin,  
Rhosfarced,  
Aberdaugleddau, Sir  
Benfro SA73 1JH

01646 600827



SIR BENFRO

[cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk](mailto:cllr.rob.summons@sirbenfro.gov.uk)

**Cyng. STEPHEN JOSEPH**

105 Heol Siarl,  
Aberdaugleddau, Sir  
Benfro SA73 2HW

07789 685035




SIR BENFRO

[cllr.stephen.joseph@sirbenfro.gov.uk](mailto:cllr.stephen.joseph@sirbenfro.gov.uk)

**IAN ROFFE**

Greenlands, Clarach,  
Aberystwyth, Ceredigion,  
SY23 3DT

01970 820537



AELOD CYFETHOLEDIG

[i.roffe@btinternet.com](mailto:i.roffe@btinternet.com)

**HELEN THOMAS**

16 Maes Yr Ysgol, Peniel,  
Sir Gaerfyrddin , SA32 7BT

01267 235824



AELOD CYFETHOLEDIG

[Helent072@gmail.com](mailto:Helent072@gmail.com)

PANEL HEDDLU A  
THROSEDDU DYFED POWYS

DYFED POWYS POLICE  
AND CRIME PANEL

